# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 10FED IONAWR, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

**(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 03/01/24)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Beth Lawton
Dewi Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
David Wareing
Hywel Eifion Jones
Mark Jones
[sedd wag]

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM ODDEFEB - Y CYNGHORYDD DAWN JONES — 4 - 13

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

## 5. CAIS AM ODDEFEB - Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN — 14 - 23

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **10 Ionawr 2024** |
| **TEITL :** | **Cais am Oddefeb - Cynghorydd Dawn Jones** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y Cais** |

**Cefndir**

1 Atodaf gopi o ffurflen gais y Cyng. Dawn Jones , Aelod Ward Cadnant, Caernarfon , Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad a Grwp Tasg a Sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal gan gynnwys Aelodau o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

2. Roedd Cynghorydd Dawn Jones wedi datgan buddiant oedd yn rhagfarnu oherwydd fod unigolion yr oedd ganddi gysylltiad personol agos a nhw yn derbyn y gwasanaethau oedd yn cael yn destun y craffu. Roedd hyn ar ôl derbyn Cyngor y Dirprwy Swyddog Monitro ac yn cyd fynd a'r Cyngor rwyf wedi ei roi mewn achos cyffelyb.

3. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir isod:

" (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu."

Nodir mae ar sail (dd) y gwneir y cais.

**Cefndir**

4. Rwyf wedi ymgynghori a'r Gwasanaeth Democratiaeth i geisio eglurdeb ynglŷn a ròl a bwriad y Grwp Tasg. Sefydlwyd y Grwp Tasg gan y Pwyllgor Craffu Gofal ym Medi 2023. Roedd i gynnwys 5 aelod etholedig, 2 wedi eu henwebu o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Atodir gopi o gylch gorchwyl y Gwrp Tasg yn Atodiad 2. Nodir nad yw yn rôl Grŵp Tasg a Gorffen i alw tystiolaeth am fater gan ddefnyddwyr nag arbenigwyr. Ymchwiliad craffu fyddai yn arwain at hyn. Gall Grŵp Tasg wneud argymhellion i'w hystyried gan y Pwyllgor Craffu. Dylid nodi fod Grŵp Tasg yn grŵp o aelodau sydd yn mynd i adolygu maes ac er nad ydynt yn gwneud penderfyniadau ar y cyfrwy mae eu adroddiad yn mynd i ddylanwadu ar gyfeiriad craffu y maes yma.

5. Roedd sefydlu y Grwp Tasg yn deillio o gyflwyniad i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar y Cynllun Awtistiaeth. Yn y cyfarfod yna penderfynwyd :

> "Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i drafod gweithredu'r Cynllun gyda'r tîm newydd gan sicrhau cynrychiolaeth o'r Adran Addysg a'r Bwrdd Iechyd"

6. Wrth ystyried y cais nodir hefyd fod y Pwyllgor Addysg ac Economi wedi argymell penodi yr aelod i'r Grwp Tasg ac wedi argymell eu bod yn gwneud cais am oddefeb. Mae Aelodau wrth gefn wedi eu penodi.

**Canllawiau'r Ombwdsmon**

7. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau yn gyffredinol:

*"3.51 Dim ond y Pwyllgor Safonau all ganiatáu'r oddefeb a bydd yn gwneud hynny yn ôl ei ddisgresiwn. Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau*

*gydbwyso budd y cyhoedd o ran atal aelodau sydd â buddiannau rhagfarnus rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan grŵp gweddol gynrychioliadol o aelodau'r Cyngor. .......”*

8. Cyflwynir unrhyw wybodaeth bellach fydd wedi ei dderbyn ynglŷn â’r ceisiadau yn y cyfarfod.

**Y Cais**

9. Ystyrir Grŵp Tasg yn “gyfarfod” yn ol diffiniad y Cod Ymddygaid . Nodir nad yw y ffaith fod cyfarfod yn gwneud penderfyniad a’i pheidio yn y berthnasol i’r diffiniad o’r “gyfarfod”.

10. Mae’r buddiant yn deillio o fater sydd yn effeithio ar les unigolion sydd gan yr aelod berthynas agos a nhw, sef wyrion a wyresau sydd yn derbyn y gwasanaeth dan sylw mewn cyd destun addysg. Sef un o’r agweddau sydd yn derbyn sylw gan y Gweithgor yn benodol.

11. Er fod Cynghorydd Dawn Jones yn gweithio i Sylfaen Cymunedol, cwmni sydd yn darparu prosiectau cymunedol i gefnogi pobl ifanc ar draws Mon Conwy a Gwynedd sydd yn anorfod yn dod i gyswllt a phobl ifanc sydd gyda awtsitiaeth o drafod gyda’r aelod ni ystyriwyd fod natur na lefel yr ymwneud yma yn cael ei effeithio gan yr hyn sydd dan sylw.

12. Gwneir y cais ar y sail fod gan y Cynghorydd Dawn Jones arbenigedd yn y maes awtistiaeth oherwydd ei ròl neu arbenigedd penodol. Fe nodir yr esboniad o’r sail ar gyfer y datganiad yma yn y cais. Nodaf nad rôl cynghori na rhoi arweiniad fydd rôl aelodau ar y Gwrp Tasg.

13. Fy arweiniad i yw y dylid ystyried sail arbenigedd a rôl yn ofalus a fod angen medru dangos arbenigedd cydnabyddedig mewn maes neu ròl sydd a statws cydnabyddiedig.

**Crynodeb**

14. Nid yw’r cwestiwn o ròl y gweithgor na’r ffaith fod yna fuddiant personol sydd yn rhagfarnu yn bodoli gerbron. Maw hyn yn ymhlyg mewn cais am oddefeb. Yr hyn mae gofyn i'r Pwyllgor ystyried yw oes sail eglur ar gyfer caniatáu goddefeb, ar ba amodau ac lle mae'r balans o’r budd cyhoeddus yn disgyn yn erbyn Buddiant Personol.

Gall y Pwyllgor:

1. Ganiatáu y cais

2. Caniatáu yn rhannol e.e caniatáu cymryd rhan mewn rhai amgylchiadau penodol
3. Gwrthod y cais

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar y cais

# Atodiad 1

# Cais i'r Pwyllgor Safonau am Oddefeb

**NI YSTYRIR EICH CAIS OS NA GWBLHEIR POB RHAN O'R Y FFURFLEN HON**

**1. MANYLION PERSONOL**

**1.1 Eich enw**
**Dawn Lynne Jones**

**1.2 Enw eich Cyngor – Cyngor Gwynedd**

**1.3 Eich cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt**
**(Cyflwynwyd)**

**2. MANYLION EICH BUDDIANT**

**2.1 Beth yw'r eitem dan sylw?**
**Grwp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth Pwyllgor Craffu Gofal**

**2.1 Sut mae eich buddiant yn yr eitem yn codi?**
**Rwyf yn llys nain i ddau o fechgyn sydd yn byw a awtistiaeth ac yn mynychu Ysgol Pendalar.**

**3. MANYLION EICH CAIS**

**3.1 Ydych chi'n gofyn am oddefeb i siarad a phleidleisio neu i siarad yn unig?**
**I siarad er mwyn rhannu profiadau ac i gynnig syniadau adeiliadol.**

**3.2 Ydych chi'n:**

**(a) gofyn am oddefeb ar gyfer cyfarfod penodol? Os felly nodwch pa un:**

**Grwp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth Pwyllgor Craffu Gofal**

**neu,**

**(b) gofyn am oddefeb cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?**

**4. Mae'r Rheoliadau perthnasol yn gosod yr amgylchiadau lle y gall y Pwyllgor Safonau roi goddefeb a cheir crynodeb ohonynt isod (mae'r manylion llawn i'w gweld yn y nodiadau i'r ffurflen hon). Nodwch pa un o'r amgylchiad(au) hynny sy'n berthnasol i'ch cais drwy dicio'r blwch/blychau perthnasol:**

| | |
|---|---|
| • mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy'n ystyried y mater | ☐ |
| • byddai'r ffaith nad wyf yn medru cymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio | ☐ |
| • ni fyddai fy nghyfranogiad yn niweidio hyder y cyhoedd | ☐ |
| • mae'r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd | ☐ |
| • mae yna gyfiawnhad i mi gymryd rhan oherwydd fy rôl neu fy arbenigedd penodol | **x**☐ |
| • mae'r busnes i'w ystyried gan bwyllgor craffu ac nid oes gennyf fuddiant ariannol | ☐ |
| • mae'r busnes yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall | ☐ |

**5. Nodwch isod pam y credwch y dylai'r Pwyllgor Safonau ganiatáu eich cais *(h.y. pam yr ydych yn credu y dylech gael caniatâd i fod yn bresennol yn y cyfarfod fel aelod, er bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu?)***

**Mae gennyf profiad personol a proffesiynol o weithio gyda plant a pobl ifanc sydd yn byw gyda awtisitiaeth.**
**Rwyf wedi gweithio yn y maes addysg ers 34 mlynedd ac rwyf yn credu y bydd fy ngwybodaeth yn help wrth graffu ar y Cynllun Awtisiteth.**

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau:*
*ffôn - 01286 679168 e-bost - sionhuws@gwynedd.llyw.cymru*

*(gallwch barhau ar dudalen ar wahân os oes angen)*

**Arwyddwyd**_________d.l.jones____________________________________

**Dyddiad**___21/11/23________________________

## Nodiadau ar gwblhau'r ffurflen

**1.** Hon yw'r ffurflen ar gyfer cyflwyno cais am oddefeb, sef caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth er bod gennych *'fuddiant sy'n rhagfarnu'* o dan y Cod Ymddygiad. Gellir cael gwybodaeth bellach am fuddiannau yn y Cod Ymddygiad ei hun, Canllawiau'r Ombwdsmon ac yn llyfryn 'Buddiannau' Cyngor Gwynedd.

**2. Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**
Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu cais os yw'n dod o fewn un o'r amgylchiadau a restrir yn *Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001*, sef:

" (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu."

**Atodiad 2**

# GRŴP TASG A GORFFEN
# CYNLLUN AWTISTIAETH
BRÎFF

## Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried?

Cyflwynwyd diweddariad ar Gynllun Awtistiaeth Gwynedd i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 20fed o Ebrill, 2023. Cyflwynwyd diweddariad ar y gwaith sy'n mynd yn ei flaen, gan gynnwys diweddariad staffio, camau codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a gweithio mewn partneriaethau. Yn ogystal, bu i'r Aelodau Cabinet dros Wasanaethau Plant ac Oedolion gyflwyno blaenoriaethau'r 6 mis i ddod.

Cafwyd ymatebion i nifer o faterion a gododd yn ystod cyfarfod y pwyllgor, ond fe gododd rhai materion ychwanegol ynghylch profiad yr unigolyn wrth ddisgwyl diagnosis, rhwystredigaeth yn y gymuned ynghylch rhestrau aros am ddiagnosis a diffyg dealltwriaeth glir o'r gefnogaeth ar gael mewn ysgolion yn dilyn derbyn diagnosis.

Penderfynodd y pwyllgor eu bod yn awyddus i sefydlu grŵp tasg a gorffen i drafod y mater ymhellach gan wneud cais am sicrhau cynrychiolwyr o'r Adran Addysg a'r Bwrdd Iechyd i fod yn bresennol i ateb rhai o'r pryderon. Penderfynwyd i estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd gan fod y gwaith yn pontio meysydd y ddau bwyllgor.

Bwriad y gwaith yw sicrhau dealltwriaeth o weithrediad Cynllun Awtistiaeth Gwynedd yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys:

- dealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd wrth ddisgwyl diagnosis, ac a oes unrhyw rwystrau wrth ddisgwyl diagnosis
- yn dilyn diagnosis, yn arbennig y gefnogaeth sydd ar gael i blant o fewn ein hysgolion, ac a oes unrhyw rhwystrau

## Camau i weithredu

- Pwyllgor Craffu Gofal i dderbyn y briff ac adnabod 3 Aelod i gymryd rhan. (21/09/2023)
- Gwahodd cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (2 aelod) i gymryd rhan. Byddwn yn gohebu gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi dros ebost yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Craffu Gofal ar 21/09, gan gadarnhau'r aelodaeth yn ffurfiol yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 09/11/2023.
- Cynnal cyfarfod ar gyfer y 5 aelod gyda chynrychiolwyr o'r Adrannau Plant, Oedolion ac Addysg, a chynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd. (Union

ddyddiad i’w gadarnhau yn dilyn trafodaeth gyda phartneriaid allweddol – rhagwelir diwedd 2023/cychwyn 2024)

- Adrodd nol i’r Pwyllgor Craffu Gofal – 1af o Chwefror 2024 (yn ddibynnol ar ddyddiad y cyfarfod uchod).

## Swyddogion allweddol

Cynhelir y cyfarfod i’r 5 aelod fydd wedi eu hadnabod i gymryd rhan yn y grŵp tasg a gorffen gyda’r swyddogion allweddol isod:

| ADRAN | SWYDDOG ALLWEDDOL |
| --- | --- |
| Plant | Aled Gibbard, Uwch Reolwr Gweithredol |
| Oedolion | Helen Fôn Owen, Uwch Reolwr Anableddau Dysgu |
| Addysg | Delyth Gibbard, Uwch Athrawes Cyfathrebu a Rhyngweithio<br>Dr Einir Peters, Uwch Seicolegydd Addysgol ym maes Cyfathrebu a Rhyngweithio |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | I’w gadarnhau |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **10 Ionawr 2024** |
| **TEITL :** | **Cais am Oddefeb - Cynghorydd Gwynfor Owen** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y Cais** |

**Cefndir**

1 Atodaf gopi o ffurflen gais y Cyng. Gwynfor Owen , Aelod Ward Harlech a Llanbedr, Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad a Grwp Tasg a Sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal gan gynnwys Aelodau o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

2. Roedd Cynghorydd Cynghorydd Gwynfor Owen sydd yn aelod o'r ddau Bwyllgor Craffu wedi datgan buddiant oedd yn rhagfarnu oherwydd fod unigolion yr oedd ganddo gysylltiad personol agos a nhw, mab yn derbyn y gwasanaethau oedd yn cael yn destun y craffu. Roedd hyn ar ôl derbyn Cyngor y Dirprwy Swyddog Monitro ac yn cyd fynd a'r Cyngor rwyf wedi ei roi.

3. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir isod:

" (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.”

Nodir mae ar seiliau (ch)(dd)(e) y gwneir y cais.

**Cefndir**

4. Rwyf wedi ymgynghori a’r Gwasanaeth Democratiaeth i geisio eglurdeb ynglŷn a ròl a bwriad y Grwp Tasg. Sefydlwyd y Grwp Tasg gan y Pwyllgor Craffu Gofal ym Medi 2023. Roedd i gynnwys 5 aelod etholedig, 2 wedi eu henwebu o’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Atodir gopi o gylch gorchwyl y Gwrp Tasg yn Atodiad 2. Nodir nad yw yn rôl Grŵp Tasg a Gorffen i alw tystiolaeth am fater gan ddefnyddwyr nag arbenigwyr. Ymchwiliad craffu fyddai yn arwain at hyn. Gall Grŵp Tasg wneud argymhellion i’w hystyried gan y Pwyllgor Craffu. Dylid nodi fod Grŵp Tasg yn grŵp o aelodau sydd yn mynd i adolygu maes ac er nad ydynt yn gwneud penderfyniadau ar y cyfrwy mae eu adroddiad yn mynd i ddylanwadu ar gyfeiriad craffu y maes yma.

5. Roedd sefydlu y Grwp Tasg yn deillio o gyflwyniad i’r Pwyllgor Craffu Gofal ar y Cynllun Awtistiaeth. Yn y cyfarfod yna penderfynwyd :

> “Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i drafod gweithredu’r Cynllun gyda’r tîm newydd gan sicrhau cynrychiolaeth o’r Adran Addysg a’r Bwrdd Iechyd”

6. Wrth ystyried y cais nodir hefyd fod y Pwyllgor Addysg ac Economi wedi argymell penodi yr aelod i’r Grwp Tasg ac wedi argymell eu bod yn gwneud cais am oddefeb. Mae Aelodau wrth gefn wedi eu penodi.

Mae rhaid hefyd tynnu sylw at gais y Cynghorydd Gwynfor Owen i dderbyn goddefeb cyffredinol fyddai yn caniatáu iddo siarad a phleidleisio mewn unrhyw achlysur y byddai y mater yn codi.

**Canllawiau'r Ombwdsmon**

7. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau yn gyffredinol:

*"3.51 Dim ond y Pwyllgor Safonau all ganiatáu'r oddefeb a bydd yn gwneud hynny yn ôl ei ddisgresiwn. Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau gydbwyso budd y cyhoedd o ran atal aelodau sydd â buddiannau rhagfarnus rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan grŵp gweddol gynrychioliadol o aelodau'r Cyngor. ......."*

8. Cyflwynir unrhyw wybodaeth bellach fydd wedi ei dderbyn ynglŷn â'r ceisiadau yn y cyfarfod.

**Y Cais**

9. Ystyrir Grŵp Tasg yn "gyfarfod" yn ol diffiniad y Cod ymddygaid . Nodir nad yw y ffaith fod cyfarfod yn gwneud penderfyniad a'i pheidio yn y berthnasol i'r diffiniad o'r "gyfarfod".

10. Mae'r buddiant yn deillio o fater sydd yn effeithio ar les unigolion sydd gan yr aelod berthynas agos a nhw, sef ei fab sydd yn derbyn y gwasanaeth dan sylw mewn cyd destun addysg. Sef un o'r agweddau sydd yn derbyn sylw gan y Gweithgor yn benodol.

13. Fy arweiniad i yw y dylid ystyried sail arbenigedd a rôl yn ofalus a fod angen medru dangos arbenigedd cydnabyddedig mewn maes neu ròl sydd a statws cydnabyddiedig.

14. O ran y seiliau eraill gofynnaf i'r Pwyllgor ystyried y cais a dod i farn ar y mater.

**Crynodeb**

14. Nid yw'r cwestiwn o ròl y gweithgor na'r ffaith fod yna fuddiant personol sydd yn rhagfarnu yn bodoli gerbron. Maw hyn yn ymhlyg mewn cais am oddefeb. Yr hyn mae gofyn i'r Pwyllgor ystyried yw oes sail eglur ar gyfer caniatáu goddefeb, ar ba amodau ac lle mae'r balans o'r budd cyhoeddus yn disgyn yn erbyn Buddiant Personol.

Gall y Pwyllgor:

1. Ganiatau y cais

2. Caniatau yn rhannol e.e caniatau cymryd rhan mewn rhai amgylchiadau penodol
3. Gwrthod y cais

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar y cais

# ATODIAD 1

# Cais i'r Pwyllgor Safonau am Oddefeb

**NI YSTYRIR EICH CAIS OS NA GWBLHEIR POB RHAN O'R Y FFURFLEN HON**

| **1. MANYLION PERSONOL** |
|---|
| **1.1 Eich enw**<br>**Gwynfor Owen** |
| **1.2 Enw eich Cyngor**<br>**Cyngor Gwynedd** |
| **1.3 Eich cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt**<br>**Gwyndeb, Penrhyndeudraeth. Gwynedd. LL48 6NP** |

| **2. MANYLION EICH BUDDIANT** |
|---|
| **2.1 Beth yw'r eitem dan sylw?**<br><br>**Grwp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth** |
| **2.1 Sut mae eich buddiant yn yr eitem yn codi?**<br><br>**Mae gennyf fab gyda Awtistiaeth sydd yn derbyn cefnogaeth gan y Cyngor** |

| **3. MANYLION EICH CAIS** |
|---|
| **3.1 Ydych chi'n gofyn am oddefeb i siarad a phleidleisio neu i siarad yn unig?**<br><br>**Siarad a phleidleisio yn ddelfrydol, ond buaswn yn derbyn hawl I siarad yn unig os mai hynny fuasai y ffordd ymlaen** |
| **3.2 Ydych chi'n:**<br><br>**(a) gofyn am oddefeb ar gyfer cyfarfod penodol? Os felly nodwch pa un:**<br><br>**neu,**<br><br>**(b) gofyn am oddefeb cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?** |

***I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.***

***Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau: ffôn - 01286 679168 e-bost - sionhuws@gwynedd.llyw.cymru***

| |
|---|
| **Oddefeb cyffredinol.** |
| |
| |

| **4. Mae’r Rheoliadau perthnasol yn gosod yr amgylchiadau lle y gall y Pwyllgor Safonau roi goddefeb a cheir crynodeb ohonynt isod (mae’r manylion llawn i’w gweld yn y nodiadau i’r ffurflen hon). Nodwch pa un o’r amgylchiad(au) hynny sy’n berthnasol i’ch cais drwy dicio’r blwch/blychau perthnasol:** | |
|---|---|
| • mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy’n ystyried y mater | ☐ |
| • byddai’r ffaith nad wyf yn medru cymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio | ☐ |
| • ni fyddai fy nghyfranogiad yn niweidio hyder y cyhoedd | |
| • mae’r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd | ☐ |
| • mae yna gyfiawnhad i mi gymryd rhan oherwydd fy rôl neu fy arbenigedd penodol | Error! Bookmark not defined. |
| • mae’r busnes i'w ystyried gan bwyllgor craffu ac nid oes gennyf fuddiant ariannol | Error! Bookmark not defined. |
| • mae’r busnes yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall | ☐ |

**5. Nodwch isod pam y credwch y dylai’r Pwyllgor Safonau ganiatáu eich cais *(h.y. pam yr ydych yn credu y dylech gael caniatâd i fod yn bresennol yn y cyfarfod fel aelod, er bod gennych fuddiant sy’n rhagfarnu?)***
***Fel Tad I berson gyda Awtistiaeth ‘rwyf wedi magu profiad ac arbenigedd yn y Pwnc, a credaf felly bod gennyf gyfraniad helaeth I'w wneud am y pwnc. Heb gael pobl a dealltwriaeth o unrhyw bwnc does dim pwrpas I neb ei drafod.***

*I’w dychwelyd i’r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â’r Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau: ffôn - 01286 679168 e-bost - sionhuws@gwynedd.llyw.cymru*

*(gallwch barhau ar dudalen ar wahân os oes angen)*

**Arwyddwyd**____________________Gwynfor Owen________________________
**Dyddiad**____________20/11/23_______________

## Nodiadau ar gwblhau'r ffurflen

**1.** Hon yw'r ffurflen ar gyfer cyflwyno cais am oddefeb, sef caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth er bod gennych *'fuddiant sy'n rhagfarnu'* o dan y Cod Ymddygiad. Gellir cael gwybodaeth bellach am fuddiannau yn y Cod Ymddygiad ei hun, Canllawiau'r Ombwdsmon ac yn llyfryn 'Buddiannau' Cyngor Gwynedd.

**2. Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**
Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu cais os yw'n dod o fewn un o'r amgylchiadau a restrir yn *Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001*, sef:

" (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai analluogi aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r analluogi gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu."

**Atodiad 2**

# GRŴP TASG A GORFFEN
# CYNLLUN AWTISTIAETH
BRÎFF

## Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried?

Cyflwynwyd diweddariad ar Gynllun Awtistiaeth Gwynedd i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 20fed o Ebrill, 2023. Cyflwynwyd diweddariad ar y gwaith sy'n mynd yn ei flaen, gan gynnwys diweddariad staffio, camau codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a gweithio mewn partneriaethau. Yn ogystal, bu i'r Aelodau Cabinet dros Wasanaethau Plant ac Oedolion gyflwyno blaenoriaethau'r 6 mis i ddod.

Cafwyd ymatebion i nifer o faterion a gododd yn ystod cyfarfod y pwyllgor, ond fe gododd rhai materion ychwanegol ynghylch profiad yr unigolyn wrth ddisgwyl diagnosis, rhwystredigaeth yn y gymuned ynghylch rhestrau aros am ddiagnosis a diffyg dealltwriaeth glir o'r gefnogaeth ar gael mewn ysgolion yn dilyn derbyn diagnosis.

Penderfynodd y pwyllgor eu bod yn awyddus i sefydlu grŵp tasg a gorffen i drafod y mater ymhellach gan wneud cais am sicrhau cynrychiolwyr o'r Adran Addysg a'r Bwrdd Iechyd i fod yn bresennol i ateb rhai o'r pryderon. Penderfynwyd i estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd gan fod y gwaith yn pontio meysydd y ddau bwyllgor.

Bwriad y gwaith yw sicrhau dealltwriaeth o weithrediad Cynllun Awtistiaeth Gwynedd yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys:

- dealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd wrth ddisgwyl diagnosis, ac a oes unrhyw rwystrau wrth ddisgwyl diagnosis
- yn dilyn diagnosis, yn arbennig y gefnogaeth sydd ar gael i blant o fewn ein hysgolion, ac a oes unrhyw rhwystrau

## Camau i weithredu

- Pwyllgor Craffu Gofal i dderbyn y briff ac adnabod 3 Aelod i gymryd rhan. (21/09/2023)
- Gwahodd cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (2 aelod) i gymryd rhan. Byddwn yn gohebu gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi dros ebost yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Craffu Gofal ar 21/09, gan gadarnhau'r aelodaeth yn ffurfiol yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 09/11/2023.
- Cynnal cyfarfod ar gyfer y 5 aelod gyda chynrychiolwyr o'r Adrannau Plant, Oedolion ac Addysg, a chynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd. (Union

ddyddiad i'w gadarnhau yn dilyn trafodaeth gyda phartneriaid allweddol – rhagwelir diwedd 2023/cychwyn 2024)

- Adrodd nol i'r Pwyllgor Craffu Gofal – 1af o Chwefror 2024 (yn ddibynnol ar ddyddiad y cyfarfod uchod).

## Swyddogion allweddol

Cynhelir y cyfarfod i'r 5 aelod fydd wedi eu hadnabod i gymryd rhan yn y grŵp tasg a gorffen gyda'r swyddogion allweddol isod:

| **ADRAN** | **SWYDDOG ALLWEDDOL** |
|---|---|
| Plant | Aled Gibbard, Uwch Reolwr Gweithredol |
| Oedolion | Helen Fôn Owen, Uwch Reolwr Anableddau Dysgu |
| Addysg | Delyth Gibbard, Uwch Athrawes Cyfathrebu a Rhyngweithio<br>Dr Einir Peters, Uwch Seicolegydd Addysgol ym maes Cyfathrebu a Rhyngweithio |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | I'w gadarnhau |